Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 459 TACHWEDD 2023 | AM DDIM

## DELWEDD NEWYDD I DŶ TAWE

-HEINI GRUFFUDD

Diolch i'r Fenter Iaith, daeth arian gan gyngor y ddinas i adnewyddu'r tu allan i Dŷ Tawe.

Mae golwg atyniadol i flaen yr adeilad a'r siop.




## LLONGYFARCH ALAN LLWYD

-DAFYDD WILLIAMS

Daeth tyrfa fawr i'r noson a drefnwyd gan Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe i longyfarch Alan Llwyd, Treforys ar ei gamp yn ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.



Bu cyfraniadau barddonol gan bedwar o'i gyd-Brifeirdd a chanu ac adrodd gwych gan bobl ifainc Ysgol Bryntawe a Phartí'r Lliw.

## RHAGLEN BWMP

-HEINI GRUFFUDD

Mae 'Bwmp' yn cael ei darlledu ar nos Iau 16eg o Dachwedd - peilot yw e, ysgrifennwyd gan Ciaran Fitzgerald o Port Talbot gafodd ei gyfweld ar 'Heno' tua mis yn ôl. Mae Siôn Campbell, o Gwmbwrla, yn cyfarwyddo. Os gaiff hi glod, wedyn mae'n bosib y bydd cyfres yn gael ei chomisiynu, gan fod Ciaran wedi ysgrifennu sawl pennod yn barod. Mae parlys yr ymennyddy ar Ciaran a merch gyda anabledd yw'r prif gymeriad ac er taw dim ond 15 munud yw'r peilot dych chi'n ei gweld hi fel rhywun gyda phroblemau 'pob dydd', dim fel rhywun gyda anabledd.

Mae dau wahanol amser ar gyfer y rhaglen ar y 16eg! Sef naill ai 22.45 - 23.00, neu 23.45 - 0.00.

Ar ol graddio yn 2017 mewn Ffilm Ddigidol a Thechnoleg Ôl-gynhyrchu, aeth Sion Campbell ymlaen i weithio fel Cydlynydd Cynhyrchu ar gyfer It's My Shout Productions. Gweithiodd ei ffordd i fyny o fewn blwyddyn i fod yn Rheolwr Cynhyrchu gan oruchwylio dros 28 o Ddramâu Byrion a Rhaglenni Dogfen a darlledwyd ar BBC Cymru ac S4C.

Ar ôl tair blynedd aeth ymlaen i ddilyn ei angerdd dros Gyfarwyddo, gan weithio ar armryw o brosiectau gyda Theatr Genedlaethol Cymru, Boom Cymru, ac yn fwy ddiweddar y gyfres Comedi 'LIMBO', a ddarlledwyd ar S4C. Yn ogystal â chyfarwyddo, mae Sion yn gweithio fel golygydd ac wedi gweithio gyda amryw o gwmnioedd; S4C, BBC Cymru, Tinopolis, Orchard Media, Boom Cymru, Sony, Octagon, Theatr Genedlaethol ac eraill.

## TAITH DISNEY YR URDD 2023

-NIA ELERI JOHNS

Yn ystod hanner tymor Hydref 2023 cefais i'r cyfle i fod yn arweinydd bws ar daith cenedlaethol yr Urdd i Disneyland Paris. Roedd y criw o bobl ifanc oedd yn fy ngofal i wir yn arbennig ac roedd hi'n braf dod i'w nabod nhw yn ystod y tridiau a chlywed eu straeon a'r cyffro am yr hyn wnaethant yn y parc a'r stiwdio.

Dechreuodd y daith ar fore Dydd Mercher braidd yn hwyrach na'r disgwyl gan fod y bws bron awr a hanner yn hwyr ond roedd y rhieni/gwarchodwyr a'r bobl ifanc wedi derbyn hynny heb ffys na ffwdan er gwaetha'r amser. Roedd pawb yn hynod o gyffrous ac i gyd yn cysgu erbyn 9yh yn barod am ddiwrnod llawn hwyl yn parc. Cawson nhw gyfle i fynd ar nifer o reidiau, gweld y pared a'r sioe tan gwyllt yn y nos. Ar y trydydd diwrnod, aethom i gyd i'r stiwdio lle roedd hyd yn oed mwy o reidiau a chyfle i weld cymeriadau Marvel. Yn amlwg, rhuthrodd pawb at reid "Tower of Terror" yn syth ar ôl cyrraedd – gan gynnwys y staff!

Roedd nifer o grwpiau bach o ffrindiau ar y daith ond roedd hi'n hyfryd gweld disgyblion o bob ysgol yn cymysgu ac yn gwneud ffrindiau newydd o ysgolion gwahanol erbyn diwedd y daith.



Siop Nadolig

# Cadwyn

Abertawe

## 11 Tachwedd > 24 Rhagfyr

**Anrhegion Cymreig a Masnach Deg**








**39 Stryd yr Undeb, ABERTAWE**
Gyferbyn â Burger King

www.cadwyn.com

01559 384378

swyddfa@cadwyn.com



## TAITH CÔR DYFNANT

-HUW MORRIS

Lansir "Taith Cymru", Côr Meibion Dyfnant yng Nghadeirlan Aberhonddu ar 25 Tachwedd 2023. Mae Côr Meibion Dyfnant yn gallu ymffrostio yn y ffaith taw’r côr yw’r hynaf o gorau meibion Cymru sydd â hanes di-dor, gan ei fod wedi diddanu cynulleidfaoedd am dros 128 o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r 12 mis nesaf yn addo bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf cyffrous yn ei hanes. Rhagwelir y bydd y côr yn perfformio i oddeutu 4,000 o bobl yn rhai o'r lleoliadau gorau yng Nghymru. Deellir mai'r côr fydd y côr cyntaf i drefnu taith o amgylch y chwe chadeirlan.

Yan bydd yn perfformio yng Ngŵyl Cymru Gogledd America a gynhelir yn Pittsburgh, Pennsylvania, UDA, ym mis Awst.

Mae'r rhaglen y daith yn amrywiol, a bydd Côr Meibion Dyfnant yn rhannu'r llwyfan gydag amrywiaeth o artistiaid gan gynnwys Rhys Meirion, Côr Meibion Aberhonddu a'r Cylch, Only Boys Aloud a Chôr Meibion Hwlffordd.

Dyma'r rhestr lawn o gyngherddau/ymgysylltiadau:

25 Tachwedd, 2023 yng Nghadeirlan Aberhonddu gyda Chôr Meibion Aberhonddu a’r cylch

16 Chwefror 2024 yng Nghadeirlan Llanelwy gyda Rhys Meirion

17 Chwefror 2024 yng Nghadeirlan Bangor gyda Rhys Meirion

16 Mawrth 2024 yng Nghadeirlan St Woolos, Casnewydd gydag Only Boys Aloud

13 Ebrill, 2024 yng Nghadeirlan Tyddewi gyda Chôr Meibion Hwlffordd

4 Gorffennaf, 2024 - bydd Côr Meibion Dyfnant yn perfformio mewn "Cymanfa Ganu" yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, Caerdydd.

Bydd Taith Cymru yn gorffen gyda "Chyngerdd Terfynol" syfrdanol yn Abertawe. Bydd yr artistiaid, ar wahân i "Only Boys Aloud", a fu'n rhannu'r llwyfan gyda Chôr Meibion Dyfnant ar y daith, yn perfformio yn y cyngerdd dathlu cyffrous hwn, yn Neuadd Brangwyn.

Bydd tocynnau ar gyfer y cyngherddau ar gael tua deufis cyn pob cyngerdd, a gellir eu prynu ar wefan Côr Meibion Dyfnant a siopau lleol. www.dunvantchoir.wales.

. Rhagwelir y bydd y tocynnau’n gwerthu’n gloi, felly, cynghorir y cyhoedd i brynu tocynnau ymlaen llaw! Cysyllter a Huw Landeg Morris, Swyddog Recriwtio’r côr, am fwy o fanylion, neu os hoffech drefnu grŵp, drwy ebostio joinus@dunvantchoir.wales




Barn...

## CONDEMIO SAN STEFFAN - PLAID CYMRU

-DAFYDD WILLIAMS

Mae Plaid Cymru wedi condemnio'r cyn-Brif Weinidog Boris Johnson am wrthod trafod sut i drin y pandemig Covid gyda Llywodraeth Cymru.

Dywedodd llefarydd y Blaid yn Abertawe Dr Gwyn Williams nad oedd agwedd Stryd Downing yn gwneud unrhyw synnwyr oherwydd bod cyfrifoldeb dros y gwasanaeth iechyd wedi'i ddatganoli i Gymru.

"Unwaith eto, mae'r ffordd mae San Steffan yn trin Cymru'n tanlinellu'r fantais o ennill hunanlywodraeth gyflawn i Gymru, yn yr un modd â llawer o wledydd annibynnol llai drwy Ewrop."



## DR GWYN WILLIAMS YN GALW AM FWY O HAWLIAU I GYMRU

-DAFYDD WILLIAMS

Mae Plaid Cymru'n galw am gynnydd sylweddol yn hawliau Senedd Cymru ar ôl i arolwg barn newydd ddangos cefnogaeth gref i annibyniaeth.

Mae pôl gan y cwmni Redfield & Wilton yn dangos bod cefnogaeth dros annibyniaeth erbyn hyn yn 35%, gyda bron hanner pobl oed 35-44 yng Nghymru, sef 49%, o blaid. Mae sgandal cyllido'r cynllun rheilffordd HS2 ymhlith y rhesymau sy'n esbonio lefel y gefnogaeth.

Dywed llefarydd Plaid Cymru Abertawe Dr Gwyn Williams ei bod yn hen bryd i bleidiau gwleidyddol wrando ar farn pobl Cymru.

"Does dim esgus erbyn hyn am wrthod â throsglwyddo rheolaeth dros yr heddlu a'r llysoedd barn i Gymru - mae gan yr Alban y pwerau hyn yn barod" meddai Dr Williams.

"Ac mae'n hurt bod gwleidyddion yn San Steffan yn penderfynu sut mae darlledu - gan gynnwys radio a theledu Cymraeg - yn cael ei redeg yng Nghymru.

"Gyda Senedd Cymru ar fin tyfu i nawdeg-chwech o aelodau, nawr yw'r amser i Gymru ennill rheolaeth ehangach dros ein materion ein hunain."

## NEWYDDION DIWEDDARAF ADRAN Y GYMRAEG BRYN TAWE

-MEINIR JONES

Mynychodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 weithdy'r 'Sgriblwyr' a drefnwyd gan Ŵyl y Gelli ym Mhrifysgol Abertawe. Cawsant ddiwrnod o greu a chyfansoddi yng nghwmni Nia Morais, Bardd Plant Cymru a Casi Wyn, Aneirin Karadog a Dr Miriam Elin Jones.

Aeth criw mawr o ddisgyblion i Ganolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd i weld y Sioe Gerdd 'Branwen:Dadeni'. Profiad gwefreiddiol!







-



## NOSON FFILM @ TŶ TAWE: HEDD WYN

Ymuna gyda ni i wylio ffilm enwebai gwobr yr academi, Hedd Wyn!
Nos Lun, Tachwedd 27ain, 7pm yn Nhŷ Tawe!

Ffilm Gymraeg am fywyd y bardd Hedd Wyn yw Hedd Wyn. Cafodd llawer o'r golygfeydd eu saethu ar leoliad yn ardal Trawsfynydd, de Gwynedd, pentref genedigol Hedd Wyn. Mae'r gyferbyniaeth rhwng y golygfeydd swynol o gefn gwlad bugeiliol Meirion a'r golygfeydd cignoeth o erchylltra'r ymladd yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf, lle lladdwyd Hedd Wyn, yn un o gryfderau'r ffilm.




## MEWN CYMERIAD: NADOLIG DDOE A HEDDIW

Dewch ar daith rithiol gyda Celyn a'r dylwythen Hen Ben i chwilio am y Nadolig! Ymunwch gyda ni ar gyfer sioe ddoniol a dwys ar adegau ar gyfer y teulu cyfan. Dyma daith hudolus drwy Nadoligau'r gorffennol trwy lygaid plentyn heddiw.

Bydd Mewn Cymeriad yn dod a'i taith arbennig i Dŷ Tawe ar nos Iau, Tachwedd 30ain, am 6pm.

Tocynnau ar gael trwy www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe




## TAITH GERDDED

YDewch am dro ar daith gerdded natur dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru i ddysgu am y bywyd gwyllt ac unigryw sy'n byw ar Gors Crymlyn. Gwisgwch am y tywydd gydag esgidiau addas. Croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel!

Dydd Sadwrn, 25/11
Cwrdd am 10yb
Gwarchodfa Natur Cors Crymlyn




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

18.11 - Adwaith + Gillie + Angharad (Elysium)

24.11 - Alffa + Grey FLX + Breichiau Hir + People and Other Diseases (Bunkhouse)

25.11 - Los Blancos + French Alps Tiger + Cyn Cwsg (Bunkhouse)

27.11 - Noson Ffilm: Hedd Wyn (Tŷ Tawe)

30.11 - Mewn Cymeriad: Nadolig Ddoe a Heddiw (Tŷ Tawe)

01.12 - Ynys (Tŷ Tawe)













Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Rhagfyr erbyn Tachwedd 30ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

# SIOP TŶ TAWE

9 Stryd Christina SA1 4EW
(oddi ar Stryd y Brenin)

## Llyfrau, cardiau a nwyddau Cymraeg & Gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg lleol

- Llyfrau Cymraeg i bob oedran
- Cardiau i bob achlysur
- Anrhegion
- Calendrau
- Llyfrau ac adnoddau i ddysgwyr




01792 456856

siop@sioptytawe.co.uk

Siop Tŷ Tawe (@ysioptytawe)

SIOP TŶ TAWE - AM BOPETH CYMRAEG

DEWCH DRAW I BORI HEDDIW CROESO MAWR I CHI GYD!